**Y Pwyllgor Deisebau**
**Petitions Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

Hydref 2011

Annwyl Syr neu Fadam,

Cyflwynwyd y ddeiseb a ganlyn i Bwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

*'Mae'r Gymdeithas er Lles Ceffylau a Merlod wedi cael llif o alwadau am gymorth gan aelodau pryderus o'r cyhoedd, perchnogion ceffylau a'r heddlu ynghylch ceffylau sydd wedi'u gadael, eu hesgeuluso neu sydd wedi'u hanafu. Mae nifer ohonynt wedi eu hanafu wrth iddynt grwydro ar ein ffyrdd sy'n beryglus iawn i fodurwyr.*

*Does dim microsglodyn gan yr un o'r ceffylau hyn – sydd wedi bod yn ofyniad cyfreithiol ar ebolion ac ebolesau sydd wedi'u geni ar ôl mis Gorffennaf 2009 – sy'n golygu nad yw hi'n bosibl olrhain perchnogion y ceffylau. Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod microsglodion yn cael eu defnyddio a bod pasbortau gan geffylau fel sy'n ofynnol yn ôl Deddfwriaeth 2009.''*

Hoffem gael sylwadau unigolion, grwpiau a sefydliadau ar destun y ddeiseb hon. Caiff y sylwadau eu defnyddio fel tystiolaeth gan y Pwyllgor Deisebau pan fydd yn ystyried y ddeiseb.

**Cwestiynau y gallech eu hystyried wrth ymateb**

1. A ydych yn teimlo bod yr hyn y mae'r ddeiseb yn galw amdano'n rhesymol a/neu'n ymarferol?
2. A ydych yn teimlo bod y gofyniad i osod microsglodion ar geffylau'n cael ei orfodi'n effeithiol?
3. Beth yw'r rhwystrau sy'n ei gwneud yn anodd gorfodi'r gofyniad i osod microsglodion ar geffylau?

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8998
E-bost / Email:petition@wales.gov.uk

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, byddem yn ddiolchgar pe baech yn ei hanfon erbyn dydd Iau, 17 Tachwedd 2011. Mae rhagor o ganllawiau ar gyflwyno tystiolaeth wedi'u hatodi.

Byddem yn ddiolchgar pe baech yn rhannu'r cais hwn â phobl eraill sydd â diddordeb yn y pwnc neu, os yw hynny'n briodol, ag unrhyw un o'ch sefydliadau cysylltiedig.

Yn gywir,



**Abigail Phillips**
**Clerc y Pwyllgor Deisebau**

**Cyngor ynghylch cyflwyno deisebau**

- Gall y Pwyllgor alw ar y rhai sydd wedi cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i ategu'r dystiolaeth honno drwy gyflwyno tystiolaeth lafar gerbron y Pwyllgor. Nodwch yn eich ymateb a ydych yn fodlon rhoi tystiolaeth lafar.
- Dylai tystion fod yn ymwybodol y caiff unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynir i'r Pwyllgor ei thrin fel eiddo'r Pwyllgor. Caiff tystiolaeth ysgrifenedig ei chyhoeddi ar wefan y Pwyllgor, ac mae'n bosibl y caiff darnau ohoni eu cynnwys wedyn yn yr adroddiad.
- Ni fydd y Cynulliad yn cyhoeddi gwybodaeth a ystyrir yn ddata personol. Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, eich penderfyniad chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.
- Os ceir cais am wybodaeth a gyflwynwyd o dan ddeddfwriaeth y DU, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth a ddarperir gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.